

# Adroddiad: Gwahoddiad i Addoli

Dewch gyda ni i Fethlehem  
I ddathlu geni Crist,  
Gan gofio'r modd y torrodd gwawr  
Ar fyd dolurus, trist.

Dewch gyda ni i'r llety llawn,  
Â'i ddrws digroeso 'nghau,  
Gan gofio'r modd 'r agorwyd drws  
Yn llety'r ych i'r ddau.

Dewch gyda ni i'r stabl llawn  
Â'i breseb pren a'i wair,  
Gan ddwyn i gof mai dyna'r crud  
A gafodd Baban Mair.

Dewch gyda ni i sylwi fry  
Ar seren olau glaer,  
A doethion dri'n offrymu rhodd –  
Sef thus, a myrr ac aur.

Dewch gyda ni i'r meysydd draw  
Ar lethrau'r waun a'r rhos  
Lle canfu gwylwyr mwyn y praidd  
Lu'r engyl yn y nos.

Dewch gyda ni i ddathlu'n frwd  
Ddyfodiad Duw i'n byd,  
Gan ddwyn ein hoffrwm ninnau oll  
A phlygu wrth ei grud.

*Maurice Loader*